CWRICWLWM I GYMRU

Ysgol y Wern

cyflwyniad i Rieni

YSGOL Y WERN

Yn Ysgol y Wern, credwn fod y cwricwlwm yn llawer mwy na'r pynciau a addysgir. Mae'n cynnwys yr holl brofiadau sy'n helpu ein plant i ddysgu, tyfu a ffynnu. Gan weithio mewn partneriaeth agos â rhieni a'r gymuned, rydym yn darparu amgylchedd croesawgar, diogel a gofalgar lle mae pob plentyn yn cael ei werthfawrogi a'i barchu. Mae lles, Cymreictod, chwilfrydedd a'r Pedwar Diben wrth galon popeth a wnawn, gan baratoi ein dysgwyr i fod yn unigolion hyderus, caredig ac uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol.

At Ysgol y Wern, we believe that the curriculum is much more than the subjects we teach. It includes all the experiences that help our children learn, grow and thrive. Working in close partnership with parents and the wider community, we provide a welcoming, safe and caring environment where every child is valued and respected. Well-being, Welsh identity, curiosity and the Four Purposes are at the heart of everything we do, helping our learners become confident, caring and ambitious individuals for the future.

EIN CWRICWLWM NI

Y Pedwar Diben

6 Maes Dysgu

Egwyddorion Addysgeg

Trawsgwricwlaidd



The 4 Purposes

6 Areas of Learning

12 Pedagogical Principles

Crosscurricular

Y PEDWAR DIBEN

Y pedwar diben yw'r nod terfynol ar gyfer ein cwricwlwm. Yn y pen draw, nod ein cwricwlwm ysgol yw cefnogi ein dysgwyr i ddod yn:

The four purposes are the starting point and aspiration for our school curriculum. Ultimately, the aim of our curriculum is to support our pupils to become:

dinasyddion egwyddorol, gwybodus
ethical, informed citizens



unigolion iach, hyderus
healthy, confident individuals

dysgwyr uchelgeisiol, galluog
ambitious, capable learners

cyfranwyr mentrus, creadigol
enterprising, creative contributors

Mae'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn sail i'n cwricwlwm, ond nid ydynt yn cael eu haddysgu ar wahân. Yn hytrach, maent yn plethu gyda'i gilydd drwy brofiadau a chyd-destunau ystyrlon sy'n helpu dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng eu dysgu a'r byd o'u cwmpas.

The six Areas of Learning and Experience provide the foundation of our curriculum, but they are not taught in isolation. Instead, they are woven together through meaningful experiences and real-life contexts that help learners make connections between their learning and the world around them.

DECHRAU DA I'R DYDD

Rydym yn dechrau pob dydd gyda "Dechrau Da i'r Dydd". Mae hyn yn gyfle i ddatblygu sgiliau llafar y disgyblion, yn ogystal â rhoi amser penodol bob dydd i ganolbwyntio ar les. Mae cyfleoedd di-ri i drafod amrywiaeth o byncïau, sy'n plethu'r holl feysydd dysgu. Mae Iechyd a Lles wrth wraidd ein cwricwlwm yn Ysgol y Wern.

We start our day with "Dechrau Da i'r Dydd" (A Good Start to the Day). This is an opportunity to develop the pupils' oracy skills as well as giving them a time to have a daily focus on wellbeing. A variety of subjects are discussed, which ensures that all areas of learning are linked together.

Health and Wellbeing are central to our curriculum at Ysgol y Wern.





CYDWEITHIO CLWSTWR

Wrth gynllunio ein cwricwlwm, rydym wedi cydweithio gydag ysgolion eraill o fewn ein clwstwr.

- cydweithio mewn timau blwyddyn i gyd-gynllunio prosiectau
- gweithio gydag athrawon ar draws y Meysydd Dysgu er mwyn datblygu dealltwriaeth cyson o gynnydd
- mapio ein cwricwlwm i sicrhau bod dysgwyr yn adeiladu eu gwybodaeth a'u sgiliau yn raddol.
- rhannu arferion da i sicrhau'r profiadau gorau posibl i'n dysgwyr
- cydweithio fel arweinwyr meysydd dysgu i greu adnoddau



CLUSTER COLLABORATION

We have worked with our cluster schools, year group teams and AoLE groups to create a curriculum that provides exciting learning experiences and supports clear progression for all learners.





ADDYSGEG PEDAGOGY

Datrys Problemau

Llais y Plentyn

Cyd-destunau dilys

Annibyniaeth

Trawsgwricwlaidd

Cynllunio Cydlynol Tasgau yn adeiladu tuag at darn o waith	**Coherent planning** Tasks lead up to a piece of work
Dewch i Ddatrys Defnyddio sgiliau'r wythnos mewn cyd-destun i ddatrys problemau	**Dewch i Ddatrys** Using numeracy skills learnt during the week to problem solve in different contexts
Lles yn ganolog Dechrau Da i'r Dydd/Llun Lles	**Wellbeing is central**
Cydweithio a rhannu arfer dda	**Cooperation and sharing good practice**
Arbrofi a threialu	**Experimenting and taking risks**

Problem Solving

Pupil Voice

Authentic contexts

Independence

Crosscurricular

CYFLWYNO EIN CWRICWLWM
DELIVERING OUR CURRICULUM

Dysgu awyr agored
Outdoor learning

Prosiectau creadigol, cyfunol
Creative, integrated projects

Ymweliadau ac Ymwelwyr
Visits and Visitors

Dysgu drwy ymholi a bod yn chwilfrydig
Enquiry based learning and being curious

LLAIS Y DYSGWYR

Mae sesiynau trochi ar ddechrau thema yn arwain ein cynllunio.
Mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ddysgu drwy ymholi, gwneud camgymeriadau a thrafod. Mae ymatebion y disgyblion yn bwydo ein cynlluniau.



Immersion sessions at the start of each theme guide our planning.
Pupils are given opportunities to learn through inquiry, make mistakes, and engage in discussion. Their responses, interests and ideas help shape and inform our planning.

LLYTHRENNEDD, RHIFEDD A CHYMHWYSEDD DIGIDOL

LITERACY, NUMERACY AND DIGITAL COMPETENCY

Mae'r sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn ganolog i bob maes dysgu. Fe fydd y disgyblion yn adeiladu ar y sgiliau hyn o flwyddyn i flwyddyn.



Literacy, numeracy and digital competency skills are central to each area of learning. The pupils will consistently build on their skills.

CYMREICTOD A CHYNEFIN
WELSH IDENTITY

Rydym yn rhoi pwyslais cryf ar Gymreictod, Cynefin, diwylliant a hunaniaeth drwy'r cwricwlwm. Wrth astudio hanes, darllen llenyddiaeth ac ymchwilio i themâu amrywiol, mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o'u hardal leol, Cymru a'r byd ehangach. Mae hyn yn eu helpu i werthfawrogi eu hetifeddiaeth, dathlu amrywiaeth a datblygu ymdeimlad cryf o berthyn a hunaniaeth.

We place a strong emphasis on Welshness (Cynefin), culture and identity throughout our curriculum. Through the study of history, literature and a wide range of learning experiences, pupils develop an understanding of their local area, Wales and the wider world. This helps them appreciate their heritage, celebrate diversity and develop a strong sense of belonging and identity.



ASESU A CHYNNYDD
ASSESSMENT AND PROGRESS

Diben asesu yw cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol mewn perthynas â'r continwwm 3 i 16.

Mae dysgwyr wrth galon asesu a dylid eu cefnogi i gymryd rhan weithredol yn y broses ddysgu.

Mae asesu yn broses barhaus sy'n rhan annatod o ddysgu ac addysgu.

Mae dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, a ddatblygir drwy ddeialog broffesiynol, yn hollbwysig wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwella dysgu ac addysgu.

Dylai dysgu ar draws y cwricwlwm cyfan ddefnyddio ystod eang o ddulliau asesu, gan greu darlun cyflawn o ddatblygiad y dysgwr.

Mae ymgysylltu rhwng y dysgwr, ei rieni/gofalwyr a'r ymarferwyr yn hanfodol ar gyfer cynnydd a lles dysgwyr.

Dysgwr

- Dysgwr uchelgeisiol, galluog
- Cyfranwr mentrus, creadigol
- Dinasydd egwyddorol, gwybodus
- Unigolyn iach, hyderus

The purpose of assessment is to support the progression of each individual learner in relation to the 3 to 16 continuum.

Learners are at the heart of assessment and should be supported to become active participants in the learning process.

Assessment is an ongoing process which is indistinguishable from learning and teaching.

A shared understanding of progression, developed through professional dialogue, is integral to curriculum design and improving learning and teaching.

Learning across the breadth of the curriculum should draw on a wide range of assessment approaches, building a holistic picture of the learner's development.

Engagement between the learner, parents/carers and practitioners is essential for learner progression and well-being.

Learner

- Ambitious, capable learner
- Enterprising, creative contributor
- Ethical, informed citizen
- Healthy, confident individual

ASESU A CHYNNYDD
ASSESSMENT AND PROGRESS

Rydym yn defnyddio asesu i adnabod:

- ble mae'r dysgwyr arni o ran eu dysgu
- ble mae angen iddynt fynd o ran eu dysgu h.y y camau nesaf yn y dysgu
- beth sydd angen gwneud er mwyn cyrraedd yno

Rydym yn annog ein dysgwyr i fod yn weithredol yn y broses o asesu, boed hynny drwy hunanasesu, asesu cyfoedion ac ymateb i adborth

We use assessment to identify:

- Where they are now – what they know and can do
- Where they need to go next – their next steps in learning
- How we can help them get there – the support, challenge and experiences they need

We encourage our learners to play an active role in the assessment process, whether through self-assessment, peer assessment or responding to feedback.